*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Medi 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Prif Swyddog Tân (01745) 535253** |
| Pwnc | **Trefniadau Cyllid a Llywodraethu yr ATAau yng Nghymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynigion Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) i newid trefniadau cyllid a llywodraethu awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau cynigion Ysgrifennydd y Cabinet i newid trefniadau cyllid a llywodraethu awdurdodau tân ac achub Cymru. Yn arbennig, mae'n tynnu sylw at yr ohebiaeth ddiweddaraf a ddaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn trafod cynnwys llythyr Ysgrifennydd y Cabinet, dyddiedig Awst 2018.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf.

**CEFNDIR/GWYBODAETH**

5 Bydd yr aelodau'n cofio bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi ei awydd i newid trefniadau cyllid a llywodraethu'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae adroddiad y Prif Swyddog Tân i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018 yn cyfeirio at hyn.

6 Nodwyd y materion allweddol mewn llythyr at Gadeiryddion yr ATAau yn Chwefror 2018. Ymatebodd y tri Chadeirydd ar y cyd i'r llythyr hwn ym mis Ebrill, a chynhaliwyd cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet ddiwedd y mis hwnnw.

7 Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, trefnodd Ysgrifennydd y Cabinet i gael gwasanaethau'r Athro Catherine Farrell o Brifysgol De Cymru a'r Athro Rachel Ashworth o Brifysgol Caerdydd i siarad gyda chynrychiolwyr yr ATAau ac i ddatblygu cynigion mwy manwl ar gyfer newid.

8 Cafodd eu hadroddiad ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet maes o law, ac mae copi ar gael yn Atodiad A er gwybodaeth i'r Aelodau.

9 Ar 20 Awst 2018, cafodd Cadeirydd yr Awdurdod lythyr pellach gan Ysgrifennydd y Cabinet (Atodiad B). Mae'r llythyr yn ei egluro ei hun ond gofynnir i'r aelodau nodi'n benodol gynnig Ysgrifennydd y Cabinet i gynnal trafodaethau pellach rhwng ei swyddogion ef a swyddogion y tri ATA. Efallai y bydd yr aelodau'n dymuno trafod y cynnig hwn a ffurfio barn am y materion y bydden nhw'n hoffi eu gweld yn cael eu trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim, ar hyn o bryd. |
| Cyllideb | Byddai newid trefniadau ariannol a llywodraethu'r Awdurdod yn gallu effeithio ar sefyllfa cyllideb yr Awdurdod yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ni chyllidebwyd ar gyfer unrhyw gyngor cyfreithiol a allai fod angen. |
| Cyfreithiol | Mae materion cyfreithiol posibl yn bodoli mewn perthynas â newid, neu ddiddymu, Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995. Efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol yn y dyfodol. |
| Staffio | Dim, ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim, ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Mae'n bosibl y bydd unrhyw newid yn nhrefniadau llywodraethu ac ariannol yr Awdurdod yn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau priodol i'r gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig os bydd effaith negyddol ar sefyllfa'r gyllideb. |